

Amgueddfa Cymru

Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Amgueddfa Cymru yn cadw casgliadau mewn ymddiriedaeth ar gyfer pobl Cymru. Mae ein dogfen Weledigaeth 2015, *Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau*, wedi ailddatgan ein hymrwymiad i sicrhau bod y casgliadau hyd yn oed yn fwy hygyrch. Mae gwybodaeth yn sail i bob agwedd ar weithgarwch Amgueddfa Cymru. Mae cofnodi gwybodaeth am gasgliadau yn ganolog er mwyn sicrhau atebolrwydd am y casgliadau, er mwyn eu rheoli'n effeithiol a sicrhau eu bod yn hygyrch.

1.2 Mae dogfennu da yn annog cydweithio rhwng amgueddfeydd, yn sicrhau nad yw gwybodaeth yn aros ym mhen unrhyw unigolyn, ac yn gwneud bodloni safonau proffesiynol yn bosibl.

1.3 Mae casgliadau'r Amgueddfa'n cynnwys eitemau ffisegol a digidol. Mae gwybodaeth am y casgliadau hyn a'r eiddo deallusol cysylltiedig yn allweddol er mwyn eu defnyddio. Mae gwybodaeth am gasgliadau'n cael ei storio yn bennaf ar gronfeydd data casgliadau neu fel copïau caled mewn ffeiliau.

1.4 Un rhan o'n Fframwaith Rheoli Casgliadau yw'r polisi hwn, ac felly mae'n gweithredu ochr yn ochr â pholisïau a strategaethau cysylltiedig eraill yr amgueddfa a restrir yn ein *Polisi Rheoli Casgliadau*.

2. Amcanion

2.1 Mae'r polisi hwn yn esbonio sut fydd yr Amgueddfa yn cynnal safonau proffesiynol o ran dogfennau a gwybodaeth am gasgliadau ac yn cyrraedd y safonau uchaf posibl. Mae'n dangos sut y byddwn yn cryfhau diogelwch y casgliadau trwy wybodaeth gywir amdanynt, a sut y byddwn yn gwella atebolrwydd am gasgliadau a gwybodaeth am gasgliadau.

3. Diffiniad

3.1 Gwybodaeth am gasgliadau yw'r holl wybodaeth yr ydym yn ei chasglu, ei chreu, ei dal a'i chynnal am ein casgliad a/neu eitemau wedi'u casglu. Gallai y wybodaeth hon gynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth, fel dehongliadau, straeon, ymchwil a sgysrsiau wedi'u recordio (PAS 197: 2009).

4. Egwyddorion

4.1 Byddwn yn gwbl atebol am bob gwrthrych sy'n cyrraedd yr Amgueddfa, neu sydd eisoes yma – gwrthrychau a dderbyniwyd i'r casgliad ac fel arall.

4.2 Byddwn yn creu ac yn cynnal y wybodaeth ddiweddaraf i'r safonau uchaf posibl.

4.3 Byddwn yn sicrhau bod hawlfraint a pherchnogaeth gyfreithlon yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar gyfer pob eitem a dderbyniwyd, a bod gwaith papur diwydrwydd dyladwy yn cael ei greu a'i gynnal.

4.5 Bydd eitemau'n cael eu cofnodi fel ein bod ni'n gwybod beth yw lleoliadau parhaol neu dros dro pob eitem yn yr Amgueddfa.

4.6 Byddwn yn parchu ac yn diogelu cyfrinachedd data yn ein gofal.

4.7 Byddwn yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gronfeydd data rheoli casgliadau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben a bod gwybodaeth am gasgliadau wedi'i diogelu'n briodol rhag sefyllfa lle byddai'r systemau'n rhy hen i'w defnyddio yn y dyfodol.

5. Ystyriaethau Moesegol a Deddfwriaethol Penodol

5.1 . Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol e.e. Rhyddid Gwybodaeth (2000), Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018.

5.2 Bydd ein holl ddata'n cael ei gadw'n ddiogel, a bydd diogelwch y cronfeydd data rheoli casgliadau'n cael ei gynnal yn unol â Strategaeth Diogelwch Gwybodaeth yr Amgueddfa.

6. Cofnodion Caffael

6.1 Bydd pob eitem sy'n cyrraedd yr Amgueddfa yn cael derbynneb a rhif derbyn pan ddaw i safle'r Amgueddfa.

6.2 Byddwn yn cofnodi gwybodaeth am berchnogaeth gyfreithiol, deiliaid hawlfraint ac yn dilyn ein gweithdrefnau derbyn cyn dyrannu a chadw rhif unigryw ar gyfer pob derbyniad (gweler y *Polisi Datblygu'r Casgliad*).

6.3 Byddwn yn creu ac yn cadw gwybodaeth gyfredol o ansawdd dda ar ein cronfeydd data rheoli casgliadau sy'n cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol a rhyngwladol priodol ar gyfer eitemau casgliadau.

6.4 Byddwn yn cofnodi gwybodaeth am bob gwrthrych neu grwpiau o wrthrychau sy'n ddigonol i allu adnabod nodweddion ffisegol y grŵp hwnnw o wrthrychau'n ddigamsyniol, a darparu atebolrwydd llawn a mynediad gwell i'r casgliadau:

- Rhif y gwrthrych
- Nifer y darnau neu sbesimenau
- Enw neu deitl y gwrthrych
- Lleoliad storio yn yr amgueddfa
- Hanes a manylion y berchnogaeth gyfreithiol

- Gwybodaeth hawlfraint
- Tarddiad daearyddol (ar gyfer eitemau gwyddonol, hanes natur ac archaeolegol)
- Bydd gwybodaeth ychwanegol yn ofynnol fel bod modd adnabod gwrthrych neu grŵp o wrthrychau mewn modd unigryw, a chaiff ei phenderfynu yn unol â'n *Gweithdrefnau Caffael*.

6.5 Lle bo'n rhesymol bosibl, byddwn yn creu delwedd ddigidol o bob eitem neu grŵp o eitemau yn y casgliad.

6.6 Byddwn yn cadw'r holl ddata sylfaenol sy'n gysylltiedig â chasgliadau hyd yn oed os caiff ei ddisodli gan wybodaeth newydd.

6.7 Byddwn yn gwella cofnodion sylfaenol wrth i fwy o wybodaeth fod ar gael trwy ymchwil a defnydd o'r casgliad.

7. Archwilio ac Atebolrwydd

7.1 Byddwn yn sicrhau mai cronfeydd data rheoli casgliadau yw'r prif adnoddau a ddefnyddir ar gyfer creu a rheoli gwybodaeth ac eitemau casgliadau y mae'r Amgueddfa yn gyfrifol amdanynt yn gyfreithiol.

7.2 Byddwn yn parhau i drosi ein cofnodion papur hŷn i fformat cyfrifiadurol wrth i amser ac adnoddau ganiatáu hynny.

7.3 Byddwn yn cadw copïau o gofnodion papur a gwybodaeth am gasgliadau mewn lleoliadau storio diogel.

7.4 Byddwn yn sicrhau bod modd olrhain unrhyw ddata trwy lwybr archwilio sy'n dangos pwy greodd neu olygodd y data dan sylw.

7.5 Bydd dogfennaeth cyrraedd, lleoliad, symud a gadael yn cael eu cadw ar gyfer pob eitem sy'n cyrraedd, sy'n cael ei symud o fewn yr Amgueddfa neu'n ei gadael at ba bynnag bwrpas, waeth beth yw ei statws perchnogaeth.

8. Gwirio Ffisegol

8.1 Proses lle mae'r Amgueddfa yn pennu, ar amser penodol, presenoldeb ffisegol a lleoliad unrhyw wrthrych/sbesimen sydd yn ei gofal yw gwirio ffisegol. Bydd manylion am fylchau a dogfennau sydd wedi cronni yn cael eu cadw lle bo'n berthnasol. Mae cynllun i orffen catalogio'r bylchau yn ei le, a bydd yn cael ei gyflawni fel bo'r adnoddau'n caniatáu hynny.

8.2 Byddwn ni'n cynnal gwiriad ffisegol o'n casgliadau trwy weithio ar sail project. Bydd hyn yn cynnwys cynnal gwiriad systematig o feysydd yn y casgliad sy'n addas i anghenion y projectau ehangach, storio mewn mannau gwahanol, arddangosfeydd, projectau ymchwil ac ati.

8.3 Byddwn yn cynnal gwiriad ffisegol o'n casgliadau wrth eu defnyddio, e.e. cofnodi symudiadau newydd yn ystod benthyciad, arddangosfa, cadwraeth, ffotograffiaeth, ymchwil neu ymholiadau.

8.4 Bydd canlyniad y broses wirio'n cael ei gofnodi ar ein cronfeydd data rheoli casgliadau a gellid defnyddio cofnodion papur hefyd, e.e. ffurflenni symud.

8.5 Archwilwyr wedi'u penodi gan Bwyllgor Archwilio Mewnol yr Amgueddfa fydd yn cynnal archwiliad systematig o gofnodion eitemau'r casgliadau, ar adegau wedi'u penderfynu ymlaen llaw.

9. Darparu a Defnyddio Gwybodaeth am Gasgliadau

9.1 Byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol e.e. Rhyddid Gwybodaeth (2000), Deddf Diogelu Data (1998) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (2004) wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth, yn enwedig data cyfrinachol fel gwybodaeth am roddwyr, gwybodaeth amgylcheddol, prisiadau neu fanylion am safleoedd fesul achos, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw gytundebau cyfreithiol neu amodau sy'n gysylltiedig â rhodd.